Dyddiad: Dydd Llun 12 Hydref

Amser: 18:30

Lleoliad: Prif Ystafell yr Undeb

Yn gwasanaethu:

Dan Meehan (yn cymryd nodiadau)

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Dechreuodd y cyfarfod am 18:37 gyda'r cadeirydd (GE) yn croesawu pawb sy'n bresennol i'r cyfarfod a'u diolch am fynychu. Hefyd, darparodd y Cadeirydd drosolwg o sut y buasai'r cyfarfod yn gweithredu a'r hyn a fuasai yn yr agenda.

*Cwestiwn o'r Llawr:* "Sut caiff y cynigion eu penderfynu?" Esbonia GE y cânt eu dadansoddi a gofynnodd a ydynt yn ateb cylch gwaith y mudiad – ond cyhyd ag y bo'n dwyn budd i'r aelodaeth, caiff ei gyflwyno.

*Cwestiwn o'r Llawr:* "Ydym ni'n cyhoeddi'r rhesymau dros wrthod cynigion?" Dweda'r Cadeirydd wrth yr aelod na fu rhaid i ni wneud hyn eto ond byddwn pe bai angen. Bydd y bobl sy'n cyflwyno'r cynnig yn cael gwybod y rhesymau pam gafodd eu cynnig ei wrthod.

## 2. Etholiadau'r Pwyllgor Democratiaeth

Agorwyd enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Democratiaeth gan GE ac fe anogodd bobl i gynnig eu hunain. Caiff pob pleidlais ei chasglu ar ddiwedd y cyfarfod wrth i bobl adael.

*Cwestiwn o'r Llawr*: "Pe baem ni ar y PGD, ydym ni'n ildio ein pleidlais ar y Cyngor?" Ateba'r Cadeirydd na fyddant yn ildio eu pleidlais.

## 3. Eich Syniadau

a. **Golygu, Golygu, Golygu**: Siaradodd JD o blaid y Cyngor yn mabwysiadu'r syniad.

   *Cwestiwn o'r Llawr:* Pam oes rhaid i ni bleidleisio ar y dogfennau hyn os na chawsant eu cyflwyno inni?' Atebodd JD mai dogfennau a ddiweddarwyd y llynedd yw'r rhain ond bu sawl gwall a golygiad angenrheidiol er mwyn diweddaru'r dogfennau.

*Cwestiwn o'r Llawr:* Pe baem ni'n gwrthod y cynnig hwn ac na ddaw i rym, a fydd y dogfennau blaenorol o hyd yn ddilys? Bydd y dogfennau hyn o hyd yn ddilys.

*Cwestiwn o'r Llawr:* "Beth yw'r hyn sy'n cael ei olygu?" Yn bennaf, caiff camsillafiadau, gwallau a rhifau anghywir eu cywiro.

*Siaradwr yn erbyn (Syniad)*: Dadleua RM na ddylid pasio'r cynnig tan y gwelwn y dogfennau o'n blaenau fel mater o hawl ddemocrataidd. Nid oes yr un cwestiwn na siaradwr o blaid y syniad.

*Pleidlais (Syniad):* Pasiwyd

| | |
|---|---|
| O Blaid | 27 |
| Yn Erbyn | 10 |
| Oedi | 3 |
| Cyfeirio | 0 |

b. **Cynyddu nifer yr Ymddiriedolwyr Allanol**: Rhoddodd JD drosolwg a'r rhesymau pam ddylai'r Cyngor dderbyn y syniad.

*Cwestiwn o'r Llawr:* "Pwy yw'r bobl hyn rydym yn eu penodi i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr?" Esbonia LD fod yr ymddiriedolwyr allanol yn unigolion a chanddynt sgiliau allweddol ac arbenigedd mewn amryw o feysydd sy'n cynorthwyo'r Undeb i gyflawni eu hamcanion elusennol.

*Cwestiwn o'r Llawr:* "A fydd yna bleidlais arall am ymddiriedolwyr pellach?" Byddwn yn cymeradwyo penodiadau'r dyfodol unwaith y cânt eu trefnu.

*Pwynt Cyswllt* Eglura GE ein bod yn pleidleisio ar godi nifer yr ymddiriedolwyr y gallwn eu penodi o 3 i 5.

*Cwestiwn o'r Llawr:"* Pam nad ydych chi'n codi nifer yr ymddiriedolwyr myfyrwyr?" Dwedodd JD wrth y Cyngor bod ond modd i ni gael 12 o bobl a bod y myfyrwyr yn drech na'r bwrdd – hwn yw'r nifer a argymellir ar gyfer mudiad o'n maint ni ac, ynghyd â Thîm y Swyddogion, mae hanner y Bwrdd yn fyfyrwyr.

Nid oes unrhyw un yn dymuno siarad yn erbyn y syniad na chynnig gwelliant.

*Pleidlais (Syniad):* Pasiwyd

| | |
|---|---|
| O Blaid | 48 |
| Yn Erbyn | 1 |
| Oedi | 1 |
| Cyfeirio | 0 |

## 4 Penodiad – Ymddiriedolwr Allanol

Cyflwynodd JD, fel Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, achos o blaid Sue Parnell (SP) fel ein hymddiriedolwr allanol newydd a rhoddodd drosolwg o'i chefndir a'i chymwysterau proffesiynol.

*Cwestiwn o'r Llawr:* "Ai un o'r 5 lle newydd neu un o'r 3 lle gwreiddiol ar y Bwrdd yw SP?" Un o 3 ymddiriedolwr presennol yw SP. Serch hynny, mae gennym ni ymddiriedolwyr eraill mewn golwg ond o achos y galw sydyn, bu'n rhaid i ni roi blaenoriaeth ar benodiad SP.

*Cwestiwn o'r Llawr:* "Ydy hwn yn safle cyflogedig?" Dwed JD wrth y Cyngor fod y safle yn un gwirfoddol a gaiff ei gyflawni yn unol ag ymrwymiadau eraill yr unigolyn.

*Pleidlais (Apwyntiad):* Pasiwyd

## 5 Adroddiadau'r Swyddogion

a. **Llywydd:** Mae JD yn rhoi dadl o blaid pam mae yna fwy o socedi pŵer yn y llyfrgell ac ar y cyfan mae mwy ohonynt ym mhob man.

   *Cwestiwn o'r Llawr*: "Pa lyfrgelloedd sydd wedi cynyddu nifer eu socedi pŵer?" Llyfrgell Hugh Owen, Llawr E sydd â thyrau o'r llawr i'r nenfwd.

   *Pleidlais:* Pasiwyd

b. **UMCA:** Mae HM yn rhoi ei dadl o blaid cymeradwyo ei gwaith o ran yr ymgyrchoedd canlynol: Profiadau Cymdeithasol a'r Cytundeb Perthynas rhwng UMCA ac UMAber.

   *Pleidlais (Profiadau Cymdeithasol):* Pasiwyd

   *Pleidlais (Cytundeb Perthynas):* Pasiwyd

**Gweithgareddau:** Mae KK yn rhoi dadl o blaid pam ddylid rhoi golau gwyrdd ar 'Cit Newydd, Darparydd Newydd'. Ni ddylai dathlu llwyddiant fod yn wyrdd am fod gennym ragor o waith i'w wneud.

*Pleidlais (Cit Newydd, Darparydd Newydd):* Pasiwyd

*Cwestiwn o'r Llawr:* "Os oes gan ein tîm gyflenwadau ei hun, onid ydym yn cael ein trethu i fynd i BUCS?" Cytuna KK fod yna rai pryderon a materion ond anoga bobl i siarad â hi er mwyn dod i gytundeb sy'n gweithio i bawb.

Mae GE yn lluchio i mewn ac yn amlygu nad dadl mo hyn ond gallwn gynnig honno ar gyfer y cyfarfod nesaf os dymunant weld y cadeirydd ar y diwedd

c. **Addysg:** Mae LM yn rhoi ei dadl o blaid cymeradwyo ei gwaith sy'n cynnwys y llyfrgell 24-awr a Siartr Cyflogaeth Ôl-raddedigion.
*Pleidlais (Llyfrgell 24 Awr):* Pasiwyd
*Pleidlais (Siartr Cyflogaeth ÔR):* Pasiwyd

d. **Lles** Mae IG yn rhoi dadl o blaid pam ddylid cymeradwyo ei weithred – Canolfan Gyngor Campws Llanbadarn.
Pleidlais*:* Pasiwyd

Gofynnodd y Cadeirydd am egwyl o 5 munud.

## 6 Etholiadau'r Pwyllgor Democratiaeth

Derbyniwyd yr enwebiadau canlynol ar gyfer y Pwyllgor Democratiaeth:

- Lewys Evans
- Ed Swan
- Joe Roberts
- James Sherwood
- Claire Herbert
- Giselle Morris
- Iolo Jones

Gofynna GE i'r rheiny sydd wedi cynnig eu hunain i siarad am funud a hanner ynglŷn â pham ddylent fod ar y Pwyllgor Democratiaeth. Caiff canlyniad yr etholiad hwn ei gyhoeddi'n hwyrach yn yr wythnos waith.

## 7 Unrhyw Fusnes Arall

a. Dweda LM wrth bawb yn y cyfarfod y bydd yna ymgais University Challenge – felly cynigiwch eich hunain fel bod modd i ni ddechrau dethol.

b. Mae KK yn rhoi'r diweddaraf i'r Cyngor ynglŷn ag Elusennau'r Flwyddyn, sef:
   - Cymdeithas Gofal (Lleol)
   - Stonewall Cymru (Rhanbarthol)
   - Teenage Cancer Trust (Cenedlaethol)

c. Soniodd IG wrth y Cyngor am Sesiynau Galw Heibio newydd y Myfyrwyr Nyrsio ar brynhawn Gwener yn Undeb y Myfyrwyr.

d. Tynnodd GM sylw at y cynnydd o £6 ym mhris CymAber ond nid yw hyn wedi ei adlewyrchu yn ein deunydd hyrwyddo – rhaid gweithredu ar hyn cyn gynted â phosibl.

e. Rhoddodd EJ wybod i'r Cyngor ynglŷn ag ymgyrch a gynhelir ddydd Iau gyda Balchder – Diwrnod Porffor yn erbyn bwlio yn enwedig LHDT+ a chyfoedion.

f. Atgoffodd CH y rheiny a oedd yn bresennol fod yr etholiadau'n agor yr wythnos hon – rhowch gynnig am rôl ac rydym yn chwilio am Swyddog Menywod newydd.

g. Hyrwyddodd RE y ffaith bod Mis RAG ar y gorwel a byddaf yn annog pawb i gymryd rhan a chodi cymaint o arian ag sy'n bosibl.

Dwedodd JD a'r Cadeirydd wrth y Cyngor y cynhelir y CCB fis Chwefror gan nad ydym wedi derbyn ein cyfrifon yn ôl mewn pryd i gynnal CCB heddiw. Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar Dachwedd 23ain

Gorffennodd y cyfarfod am 19:28